Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

# Comisiynydd Heddlu a Throseddu

# Dyfed-Powys

## Hap Samplu – Dim Gweithredu Pellach

## Canfyddiadau ac Adborth SCHTh

**Mawrth 2021**

## 1.0 Trosolwg

O 2-4 Mawrth 2021, adolygodd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (SCHTh) ddetholiad ar hap o achosion Dim Gweithredu Pellach (DGP) a gaewyd gan yr Adran Safonau Proffesiynol (ASP) ar gyfer y chwarter llawn diwethaf, h.y. Hydref – Rhagfyr 2020. Prif ddiben y gwaith craffu hwn oedd adolygu'n annibynnol pa un ai a oedd yn rhesymol a chymesur peidio â chymryd camau gweithredu pellach mewn perthynas â'r gŵyn a chofnodwyd a pha un ai a esboniwyd y rhesymau ar gyfer DGP i'r achwynydd yn unol â Chanllawiau Statudol 2020 Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu.

Ar 8 Chwefror 2021, roedd 42 achos Dim Gweithredu Pellach (DGP) wedi'u cofnodi a'u cau gan yr ASP ar gyfer y cyfnod 1 Hydref 2020 – 31 Rhagfyr 2020.

## 2.0 Cefndir, Diben a Methodoleg

Ceir manylion am gefndir a diben y gwaith craffu hap samplu, ynghyd â'r ffordd y cynhelir yr hap samplu, o fewn y Fframwaith Craffu ar Gwynion a'r Protocol Hap Samplu, sydd ar gael ar wefan CHTh drwy'r hyperddolen ganlynol: https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/cy/y-swyddfa/strategaethau-a-pholisiau/.

Gwnaeth Deddf Plismona a Throsedd 2017 a rheoliadau ategol newidiadau sylweddol i systemau cwyno a disgyblu'r heddlu. Cyflwynasant nifer o newidiadau a luniwyd i gyflawni system gwynion sy'n canolbwyntio'n fwy ar y cwsmer ym mis Chwefror 2020.

Ehangwyd y system gwynion er mwyn cwmpasu amrediad ehangach o faterion. O'r blaen, roedd y ffordd yr oedd y term 'cwyn' yn cael ei ddiffinio'n golygu bod angen iddo ymwneud ag ymddygiad swyddog unigol. Nawr, gellir gwneud cwyn am amrediad llawer ehangach o faterion, gan gynnwys y gwasanaeth a ddarparwyd gan yr heddlu fel sefydliad. Lluniwyd hyn ar gyfer cynyddu mynediad i system gwyno'r heddlu. Mae Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu'n disgwyl i heddluoedd ystyried y wybodaeth maen nhw'n cadw am gwynion â bwriad y diwygiadau mewn cof - rhwymedigaeth gadarnhaol i gynyddu mynediad a chasglu gwybodaeth sy'n galluogi heddluoedd a chyrff plismona lleol i ddysgu o gwynion a materion eraill.

Mae'r newidiadau'n caniatáu ar gyfer rhai mathau o gwynion i gael eu datrys y tu allan i ofynion Atodlen 3 Deddf Diwygio'r Heddlu 2020, tra bod y rhai sydd wedi'u cofnodi'n medru cael eu trin yn rhesymol a chymesur heblaw drwy ymchwiliad, neu drwy ymchwiliad. Mewn rhai achosion, ni chymerir camau gweithredu pellach. Mae hyn yn galluogi'r heddlu i ddysgu'n gyflym o'r cwynion maen nhw'n trin a gwneud gwelliannau'n seiliedig arnynt.

## 3.0 Canfyddiadau Craffu ar Benderfyniadau'r Adran Safonau Proffesiynol i Beidio â Chymryd Camau Gweithredu Pellach

Adolygodd SCHTh gyfanswm o 5 achos cwyn a gaewyd rhwng 1 Hydref 2020 a 31 Rhagfyr 2020 (10% o'r holl achosion a gaewyd yn ystod y cyfnod hwnnw). Darparodd yr ASP y rhifau cyfeirnod achosion cwyn DGP ynghyd â'r dogfennau perthnasol, gan esbonio'r rheswm dros beidio â chymryd camau gweithredu pellach. Er mwyn sicrhau bod SCHTh yn ystyried amrediad o achosion DGP, gofynnodd SCHTh am bum achos cwyn DGP a oedd wedi cau.

## 3.1 Deall, cofnodi ac ymateb i'r gŵyn

Achos 1

Roedd yr achos cwyn hwn yn arddangos arfer da mewn perthynas â chyfathrebu rhwng yr achwynydd a'r ASP. Roedd dogfennau a roddwyd i SCHTh gan yr ASP yn dangos bod yr ASP wedi ceisio eglurhad pellach gan yr achwynydd, er mwyn sicrhau dealltwriaeth glir o'r gŵyn. Rhoddodd y llythyr canlyniad resymau clir a oedd yn amlinellu pam na fyddai camau gweithredu pellach yn cael eu cymryd, ac roedd y llythyr hefyd yn cynnwys canllawiau mewn perthynas â'r llwybr mwyaf priodol ar gyfer codi eu cwyn penodol (gan nad Heddlu Dyfed-Powys oedd y corff achwyn cywir).

Achos 2

O fewn Canllawiau Statudol 2020 Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu, mae'n dweud y *"Gall fod amgylchiadau lle mae angen rhai ymholiadau cyn y gellir sefydlu ei fod yn rhesymol a chymesur peidio â chymryd camau gweithredu pellach i ymdrin â'r gŵyn ar ôl ei chofnodi. Mae'r amgylchiadau hyn yn cynnwys, er enghraifft: Lle y sefydlwyd bod y gŵyn eisoes wedi derbyn ymateb a lle nad oes unrhyw dystiolaeth neu bryderon newydd amlwg. Fodd bynnag, os yw achwynydd yn codi materion tebyg i'r rhai y mae wedi codi o'r blaen, nid yw hyn o reidrwydd yn rheswm yn ei hun i beidio â chymryd camau gweithredu pellach."*

Ar ôl ystyrid cyfeirnod cwyn Achos 2, nodwyd bod yr ASP wedi ystyried bod y gŵyn hon yn gŵyn yr ymatebwyd eisoes iddi, ac felly penderfynasant fod DGP yn ofynnol. Fodd bynnag, pan ddarllenodd SCHTh y ffurflen gŵyn ar-lein, nodwyd bod y ffurflen gŵyn ar-lein yn cynnwys honiadau cwyn nad oedd wedi'u trin yn llythyr canlyniad DGP yr ASP. Gofynnodd yr achwynydd i Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu am adolygiad wedi hynny, a nodwyd hyn gan Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu yn ystod ei hadolygiad, fodd bynnag, ni chynhaliwyd yr adolygiad gan Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu gan fod y corff adolygu ond yn medru ystyried y gŵyn a gofnodwyd wrth gynnal adolygiad.

Nododd SCHTh fod yr e-bost cydnabod wedi'i anfon at yr achwynydd ar 12 Hydref 2020, fodd bynnag, nid oedd y gydnabyddiaeth yn cynnwys crynodeb o'r gŵyn a gofnodwyd yng nghorff yr e-bost nac fel dogfen cofrestru achos ar wahân.

Mae SCHTh wedi nodi y gallai cynnwys crynodeb o'r gŵyn yn ystod y cam hwn o'r broses gwyno fod wedi atal yr honiadau newydd rhag cael eu hesgeuluso ac yn gwahodd yr ASP i ystyried hyn fel argymhelliad.

Achos 3

Ar ôl ystyried Achos 3, nododd SCHTh bod anfodlonrwydd wedi'i drin yn effeithlon i gychwyn ac wedi'i ddatrys mewn modd amserol gan yr Arolygydd rhanbarthol; fodd bynnag, wedi hynny, cysylltodd yr achwynydd â Chanolfan Gyfathrebu'r Heddlu i adrodd ei fod dal yn anfodlon â chanlyniad camau gweithredu'r Arolygydd, a chysylltodd y Ganolfan Gyfathrebu â'r ASP er mwyn gofyn iddynt alw'r achwynydd hwn yn ôl.

Fodd bynnag, nododd SCHTh nad oedd unrhyw ddogfennau i ddangos tystiolaeth o'r gŵyn a godwyd gyda'r ASP, h.y. tystiolaeth o gysylltiad cychwynnol yr achwynydd â'r ASP, gan fod y gŵyn wedi'i gwneud dros y ffôn. Nodwyd fod yr ASP wedi cysylltu â'r achwynydd dros y ffôn ac wedi anfon e-bost er mwyn cadarnhau'r alwad, fodd bynnag, byddai SCHTh yn argymell y gallai'r ASP gynnwys crynodeb o'r gŵyn i'r achwynydd yn ystod y cam hwn er mwyn cadarnhau dealltwriaeth gan fod y gŵyn wedi'i derbyn dros y ffôn.

<u>Achos 4</u>

Roedd yr achos cwyn hwn yn arddangos lefel dda o gyfathrebu rhwng yr ASP a'r Heddlu. Roedd y dogfennau a roddwyd i SCHTh gan yr ASP yn dangos bod yr ASP wedi ystyried yr holl wybodaeth a oedd ar gael iddynt, gan gynnwys gwybodaeth yr Heddlu, er mwyn sicrhau bod unrhyw ymateb yr oedd yr ASP yn ei ddarparu'n ystyried diogelwch pob unigolyn cysylltiedig.

<u>Achos 5</u>

Ar ôl ystyried y dogfennau a roddwyd i SCHTh, mae tystiolaeth glir bod yr ASP wedi ceisio cysylltu â'r achwynydd er mwyn cael dealltwriaeth bellach o'r gŵyn. Mae dogfennau'n dangos nad oedd modd cymryd camau gweithredu pellach gan na dderbyniodd yr ASP ymateb gan yr achwynydd. Rhoddwyd llythyr canlyniad i'r achwynydd â rhesymwaith clir, yn hysbysu'r unigolyn am y rheswm dros beidio â chymryd camau gweithredu pellach.

## 3.2 Llythyr Canlyniad yr ASP a'r Rheswm Dros Beidio â Chymryd Camau Gweithredu Pellach

<u>Dim Gweithredu Pellach</u>

O ran penderfynu pa un ai a yw'n rhesymol a chymesur peidio â chymryd camau gweithredu pellach, mae Canllawiau Statudol 2020 Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu'n nodi:

*"12.13 Lle y penderfynir nad oes modd cymryd camau gweithredu pellach fel rhan o driniaeth resymol a chymesur cwyn, dylid rhoi rhesymwaith manwl ar gyfer hyn i'r achwynydd (yn unol â'r dyletswyddau o gwmpas cyfleu canlyniad cwyn, a'r hawl i wneud cais am adolygiad a nodir ym mharagraffau 17.67 - 17.74)."*

Ar ôl ystyried y 5 achos, mae SCHTh yn fodlon bod yr ASP wedi darparu rhesymwaith clir o fewn ei llythyr canlyniad i'r achwynydd. Nodwyd nad oedd modd cymryd camau gweithredu pellach ar gyfer un o'r 5 achos gan nad oedd yr ASP yn medru cysylltu â'r unigolyn er mwyn cael gwybodaeth bellach. Roedd yr ASP dal wedi anfon llythyr canlyniad at yr achwynydd er mwyn esbonio'r rheswm hwn, sy'n arddangos gohebiaeth glir gan yr ASP ar gyfer yr achwynyddion.

O fewn Canllawiau Statudol 2020 Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu, mae'n nodi:

*"17.70 Yn ogystal â darparu'r wybodaeth yn ysgrifenedig, gall fod yn briodol hefyd i gyfleu hyn drwy sianeli eraill a allai fodloni unrhyw anghenion unigol ychwanegol yn well, h.y. er mwyn sicrhau bod yr achwynydd neu'r unigolyn â diddordeb yn deall y penderfyniadau a wnaed yn llawn."*

Yn y 5 achos, nododd SCHTh fod yr ASP wedi dangos tystiolaeth pam na fyddai camau gweithredu pellach yn cael eu cymryd mewn perthynas â'r gŵyn a gofnodwyd ac roedd y rhesymau a nodwyd yn syrthio o fewn un o'r categorïau isod, fel yr amlinellir yng Nghanllawiau Statudol 2020 Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu:

*"12.10 Dylai trinwyr cwynion geisio datrys pryderon achwynydd lle bynnag y bo'n bosibl ac yn rhesymol a chymesur gwneud hynny – hyd yn oed os ydyw ond yn rhesymol a chymesur cymryd camau cyfyngedig (gweler paragraff 10.13). Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau,*

*efallai na fydd yn rhesymol cymryd camau gweithredu pellach mewn perthynas â chwyn ar ôl ei chofnodi. Mae amgylchiadau lle y gallai fod yn afresymol cymryd camau gweithredu mewn perthynas â chwyn yn cynnwys y canlynol (ond heb fod yn gyfyngedig i hynny):*

- *Cwyn ynghylch ymddygiad rhywun sy'n gwasanaethu gyda'r heddlu pan nad yw ar ddyletswydd, sy'n amherthnasol i'w rôl fel rhywun sy'n gwasanaethu gyda'r heddlu, a hyd yn oed os yw'n cael ei brofi, ni fyddai'n dwyn anfri ar y gwasanaeth heddlu neu'n tanseilio hyder y cyhoedd ynddo.*
- *Os yw'r gŵyn yn ffansïol – mae hyn yn golygu ei bod yn amlwg o natur na allai unrhyw unigolyn rhesymol ei chredu. Mae'n bwysig ystyried y gŵyn ei hun, yn hytrach na'r digwyddiad honedig sydd wedi arwain at y gŵyn.*
- *Pe bai'r gŵyn yn cael ei thrin yn well gan broses arall, er enghraifft, cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.*
- *Os nad yw'r gŵyn yn cynnwys digon o wybodaeth i fedru datblygu unrhyw ymholiadau, a bu ceisiadau ar gyfer cael eglurhad wrth yr achwynydd yn aflwyddiannus."*

## 4.0 Casgliadau ac Argymhellion

Casgliadau

- Ar ôl adolygu'r 5 achos cwyn sydd wedi cau, mae SCHTh yn fodlon bod yr ASP wedi deall 4 o'r 5 achos cwyn yn glir.
- Mae SCHTh yn fodlon bod rhesymwaith manwl wedi'i gynnwys o fewn y llythyr canlyniad a ddarparwyd gan yr ASP ar gyfer y 5 achos cwyn a oedd wedi'u cau, er mwyn esbonio eu penderfyniad i beidio â chymryd camau gweithredu pellach wrth yr achwynydd. Roedd yr holl lythyrau canlyniad yn glir yn yr ohebiaeth a anfonwyd at yr achwynydd.
- Rhoddodd y 5 achos cwyn a oedd wedi cau ddiweddariad(au)/ymatebion mewn modd amserol ac o fewn yr amserlen a argymhellwyd.
- Ar gyfer yr un achos cwyn a gaewyd a oedd angen gwybodaeth bellach gan yr achwynydd, dangosodd yr ASP ei hymdrechion i gysylltu â'r achwynydd yn glir.
- Nododd SCHTh bod yr ASP wedi arddangos arfer da mewn perthynas â'i chysylltiad â'r Heddlu, gan ystyried yr holl wybodaeth a oedd ar gael iddynt er mwyn sicrhau diogelwch pob unigolyn cysylltiedig. Mae hyn yn dangos bod yr ASP yn ymwybodol bod y ffordd y maent yn trin cwynion yn medru effeithio ar y gwaith yr ymgymerir ag ef gan yr Heddlu a'r unigolion sy'n cysylltu â'r Heddlu.

Argymhellion

- Fel yr amlinellir yn Achosion 2 a 3, fel rhan o'r cysylltiad cychwynnol â'r achwynydd, argymhellir darparu crynodeb o'r gŵyn o fewn yr e-bost neu'r llythyr cydnabod er mwyn sicrhau bod gan yr ASP a'r achwynydd lwybr archwilio clir o'r ddealltwriaeth/crynodeb o'r gŵyn a gofnodwyd. Byddai cyflwyno'r argymhelliad hwn i'r broses gychwynnol o bosibl yn atal unrhyw gwynion eraill rhag cael eu codi gan yr achwynydd, o ganlyniad i ran o gŵyn yn cael ei hesgeuluso yn ystod y cam cofnodi cychwynnol.

## 5.0 Sylwadau'r Adran Safonau Proffesiynol Professional

Mae'r Adran Safonau Proffesiynol wedi ymrwymo i wella'n barhaus, a bob amser yn chwilio am gyfleoedd i wella ei harferion gweithio.

Gan hynny, mae'r Adran yn croesawu gwaith craffu SCHTh mewn perthynas â thrin cwynion, ac yn unol â'r uchod, mae'n galonogol gweld bod yr adborth o'r ymarfer hap samplu hwn yn gadarnhaol ar y cyfan, gyda materion mân iawn yn unig yn cael eu codi mewn dau o'r achosion, a adlewyrchwyd yn yr argymhelliad a grybwyllwyd eisoes.

Dyllid nodi bod yr argymhelliad hwn eisoes wedi'i drafod yn fanwl yng nghyfarfod cyswllt rheolaidd yr ASP a SCHTh gyda Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu. Cytunwyd yn y fforwm hwnnw nad oedd hyn yn un o ofynion Canllawiau Statudol Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu. Gan hynny, yn unol â'r penderfyniad blaenorol, er y cydnabu'r argymhelliad, ni fydd yn cael ei weithredu am y rhesymau a roddwyd yn flaenorol.

Ar gyfer cyflawnrwydd, darperir ymatebion penodol isod mewn perthynas â'r 2 achos dan sylw:

- <u>Achos 2</u>
  Nododd SCHTh bod e-bost o gydnabyddiaeth wedi'i anfon at yr achwynydd ar 12 Hydref 2020, fodd bynnag, nid oedd yn cynnwys crynodeb o'r gŵyn a gofnodwyd yng nghorff yr e-bost, nac fel dogfen cofrestru achos ar wahân.

  Mae SCHTh wedi nodi y gallai cynnwys crynodeb o'r gŵyn yn ystod y cam hwn o'r broses gwyno fod wedi atal esgeuluso'r honiadau newydd, ac yn gwahodd yr ASP i ystyried hyn fel argymhelliad.

  **<u>Ymateb yr ASP:</u>**

  Dylid egluro mai cydnabyddiaeth un llinell oedd yr e-bost a anfonwyd ar 12 Hydref 2020 gan swyddogaeth weinyddu'r ASP. Yr unig ddiben oedd rhoi gwybod i'r achwynydd ein bod ni wedi derbyn ei gŵyn. E-bost cwrteisi ydoedd yn hytrach na llythyr penderfyniad/cofnodi ffurfiol. Nid oedd y gŵyn wedi'i darllen ar y pryd hyd yn oed.

  Unwaith yr oedd y gŵyn wedi'i chofnodi/ystyried yn iawn gan yr Awdurdod Priodol, rhoddwyd crynodeb o'r gŵyn (cofrestr achos) i'r achwynydd ynghyd â'r llythyr canlyniad DGP.

- <u>Achos 3</u>
  Nododd SCHTh nad oedd unrhyw ddogfennau i ddangos tystiolaeth o'r gŵyn a godwyd gyda'r ASP, h.y. tystiolaeth o gyswllt cychwynnol yr achwynydd â'r ASP. Roedd hyn o ganlyniad i'r ffaith bod y gŵyn wedi'i gwneud dros y ffôn. Nodwyd bod yr ASP wedi cysylltu â'r achwynydd dros y ffôn ac wedi anfon e-bost i gadarnhau'r alwad ffôn; fodd bynnag, byddai SCHTh yn awgrymu y gallai'r ASP ystyried cynnwys crynodeb o'r gŵyn i'r achwynydd yn ystod y cam hwn, gan fod y gŵyn wedi'i chymryd dros y ffôn, er mwyn cadarnhau dealltwriaeth.

  **<u>Ymateb yr ASP:</u>**

  Gall fod rhywfaint o ddryswch mewn perthynas â'r broses a gymerwyd mewn perthynas â'r achos arbennig hwn.

  Ymdriniwyd â'r gŵyn yn llwyr gan arolygydd lleol <u>y tu allan i atodlen 3</u>. Gwnaeth yr achwynydd gysylltiad uniongyrchol â'r arolygydd lleol, a gymerodd perchnogaeth (yn gadarnhaol ac yn ysbryd ymagwedd sy'n canolbwyntio ar y cwsmer) yn syth, a datrys y gŵyn mewn modd rhesymol a chymesur cyn bod yr ASP yn ymwybodol ohoni.

Cafodd yr ASP wybod am y gwyn ar **26 Hydref 2020** pan gysylltodd yr arolygydd â'r Adran er mwyn tynnu'n sylw at y gŵyn a rhoi gwybod inni beth a wnaed i'w datrys. Cynhaliodd yr arolygydd gysylltiad â'r achwynydd yr holl amser y cafodd y mater hwn ei drin.

Fel arfer, byddem ond wedi cofnodi'r mater fel cwyn y tu allan i atodlen 3, heb fod angen ysgrifennu i'r achwynydd (gan fod yr arolygydd eisoes wedi ei ddiweddaru). Fodd bynnag, gan fod y gŵyn hon yn cynnwys honiad o wahaniaethu canfyddedig (er yn ynfyd ac yn annheilwng), er mwyn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth, penderfynom bryd hynny i'w chofnodi fel cwyn Atodlen 3 ac anfon llythyr ffurfiol at yr achwynydd er budd cywirdeb gweithdrefnol a rhoi ei hawl statudol i apelio iddo.

Ar **ddydd Gwener 30 Hydref 2020**, cysylltodd yr achwynydd â Chanolfan Gyfathrebu'r Heddlu'n gofyn i'r ASP ei ffonio. Mae'n dda gweld bod Swyddog Datrys Cwynion ac Anfodlonrwydd yr ASP wedi dychwelyd galwad yr achwynydd ar y diwrnod gwaith nesaf, sef **Dydd Llun 2 Tachwedd 2020**, a'i fod wedi dilyn hyn ag e-bost ar **3 Tachwedd 2020**. Anfonwyd y llythyr canlyniad DGP i'r achwynydd ar yr un diwrnod.

Yr ydym o'r farn y byddai anfon unrhyw ohebiaeth ychwanegol wedi bod yn fiwrocrataidd yn ddiangen, yn enwedig gan ei fod yn glir o gysylltiad yr arolygydd â'r achwynydd bod y gŵyn wedi'i deall yn llawn (*mae'n gadarnhaol nodi bod yr arolygydd wedi rhannu pryderon yr achwynydd yn 4 cwyn penodol a chyfeirio atynt yn unigol er mwyn i'r achwynydd ddeall y canlyniad*). Ailgadarnheir y sefyll hon gan yr alwad yn ôl a'r e-bost dilynol gan Swyddog Datrys Cwynion ac Anfodlonrwydd yr ADP, a gadarnhaodd gyda'r achwynydd bod ei bryderon wedi'u cofnodi.

Yn olaf, mae'n werth nodi nad oedd cais ar gyfer adolygiad wedi'i gyflwyno gan yr achwynydd, sy'n arwydd ei fod yn fodlon â'r hyn a gofnodwyd a'r canlyniad unwaith y cafodd ei gyflwyno'n ffurfiol ac yn ysgrifenedig gan yr ASP, neu o leiaf yn derbyn y sefyllfa ac yn gweld dim pwrpas mewn herio'r penderfyniad.

**Gavin Lemon (Uwch Reolwr yr ASP)**
**30.3.21**